

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru .



Fframwaith Sicrhau

Ansawdd Bwrdd Diogelu

Gogledd Cymru

Dyddiad cadarnhau	Ionawr 2018
Dyddiad adolygu	Ionawr 2020

1.1. **Cyflwyniad**

- 1.2. Mae dyletswydd gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru i sicrhau effeithiolrwydd beth mae sefydliadau ac asiantaethau yn ei wneud er mwyn diogelu a hyrwyddo diogelwch a lles oedolion a phlant sydd dan fygythiad yng Ngogledd Cymru. Bydd gwaith effeithiol yn y maes hwn yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau gwell oedolion / plant dan fygythiad a'u gwarchod rhag niwed.
- 1.3. Mae'r fframwaith hwn wedi ei ddatblygu gan ystyried Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Rheoliadau Byrddau Diogelu Cymru (2015)

2.1. **Y Cyd-destun Rhanbarthol**

- 2.2. Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn grŵp o sefydliadau statudol, gwirfoddol ac annibynnol ar draws Gogledd Cymru sy'n cyd-weithio er mwyn grymuso a gwarchod rhai o aelodau mwyaf diamddiffyn ein cymuned
- 2.3. Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn darparu'r arweinyddiaeth strategol ar gyfer gwaith diogelu ac wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth. Mae angen i'r Bwrdd sicrhau ei hun;
- bod trefniadau diogelu lleol yn eu lle fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a chanllawiau statudol,
 - bod arferion diogelu yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau,
 - bod asiantaethau yn cydweithio'n agos er mwyn atal camdriniaeth ac esgeulustod lle bo'n bosib,
 - bod asiantaethau ac unigolion yn darparu ymateb amserol a chymesur pan fydd camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd,
a
 - bod arferion diogelu yn gwella safon bywyd plant / oedolion yn y rhanbarth yn barhaol.
- 2.4. Nid yw cylch gwaith y Bwrdd yn un gweithredol ond yn un sy'n golygu cydlynu, cynllunio a chomisiynu ac mae'n cyfrannu tuag at yr amcanion ehangach o wella lles oedolion / plant.
- 2.5. Mae pob asiantaeth / sefydliad partner yng Ngogledd Cymru yn blaenoriaethu diogelu gyda dull gweithredu sy'n seiliedig ar hyrwyddo urddas, hawliau, parch, yn helpu pobl i deimlo yn ddiogel a sicrhau fod diogelu yn fusnes i bawb.

3.1. **Beth yw Sicrhau Ansawdd?**

- 3.2. Mae sicrhau ansawdd yn golygu asesu ansawdd y gwaith rydym yn ei wneud i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed a deall effeithiau'r gwaith hwn o ran ei effeithiolrwydd i helpu i gadw plant ac oedolion agored i niwed yn ddiogel. Bydd sicrhau ansawdd effeithiol yn cyfrannu tuag at ddiwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus.
- 3.3. Prif her sicrhau ansawdd yw gwella ansawdd arferion a chanlyniadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion.

4.0. **Beth yw'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd?**

- 4.1. Mae'r fframwaith ar gyfer partneriaethau strategol a sefydliadau unigol sydd â chyfrifoldebau diogelu plant ac oedolion yng Ngogledd Cymru.
- 4.2. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar ddull gweithredu 'Atebolrwydd Yn Ôl Canlyniadau' a fydd yn helpu'r rheiny sydd â chyfrifoldeb arweinyddiaeth, uwch reolaeth neu graffu dros ddiogelu plant ac oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ba mor ddiogel yw plant ac oedolion dan fygythiad yn eu gwasanaethau a'u cymunedau drwy ystyried
- Beth ydym yn ei wneud
 - Pa mor dda ydym yn ei wneud – yw partneriaid yn gweithio'n dda i ymateb i bryderon diogelu?
 - Pa wahaniaeth ydym ni wedi ei wneud/ yw unrhyw un mewn sefyllfa well? - A yw trefniadau diogelu yn gwella canlyniadau ar gyfer plant ac oedolion dan fygythiad

Mathau o ddata:

Maint:
Faint?

Ansawdd:
Pa mor dda?

Canlyniadau:
Oes unrhyw un
mewn sefyllfa well?

- 4.3. Mae tri math o wybodaeth / mesurau perfformio fel a ganlyn;

Gwybodaeth Feintiol

Bydd hyn o gymorth i hysbysu - *Beth rydym yn ei wneud*. Mae'n ateb y cwestiynau: 'Faint'?

Gwybodaeth Ansoddol

Bydd hyn yn dweud mwy wrthym am – *Pa mor dda ydym ni yn ei wneud* Mae'n ymwneud â swyddogaeth y sefydliad, ac ansawdd beth a wnaethpwyd

Gwybodaeth Ganlyniadol

Mae hyn yn dweud wrthym – *Pa wahaniaeth ydym ni wedi ei wneud* (drwy'n gwasanaethau, ein strategaethau a'n hymyraethau) i fywydau plant ac oedolion agored i niwed; yn benodol 'a oes unrhyw un mewn sefyllfa well.' Er enghraifft, y ganran o achosion lle mae trais domestig wedi dod i ben.

4.4. Yn draddodiadol, mae gwybodaeth sicrhau ansawdd o ran diogelu wedi canolbwyntio'n bennaf ar wybodaeth feintiol, gyda pheth gwybodaeth ansoddol ac ychydig iawn o wybodaeth ganlyniadol. Yr her dros amser yw cynyddu'r gyfran a phwysigrwydd gwybodaeth ganlyniadol gan fod hyn yn dangos beth sy'n wirioneddol bwysig, wedi ei gefnogi gan wybodaeth feintiol ac yna gwybodaeth ansoddol.

4.5. Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd hefyd yn cael ei ategu gan yr egwyddorion canlynol:

- **Bod yn agored a thryloyw:**

Mae pob asiantaeth o fewn y Bwrdd yn debygol o wybod lle mae arferion da, meysydd datblygu a risgiau o fewn ei sefydliad ei hun. Rhaid i'r bwrdd fod yn sicr fod asiantaethau wedi clustnodi a gweithredu ar risgiau a meysydd datblygu, neu eu bod yn gallu gwneud hynny fel Bwrdd aml-asiantaeth. Rhaid i bob partner ddod ag arfer da, meysydd datblygu a risgiau i'r bwrdd fel y gall y Bwrdd gytuno sut i'w lliniaru. Bydd rhai yn weithrediadau gan asiantaethau unigol a bydd angen gweithredu aml-asiantaethol ar eraill.

- **Canlyniadau:**

Dylai trefniadau diogelu o ansawdd fod yn rhai sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi eu diffinio gan yr unigolyn, yn seiliedig ar ganlyniadau ac yn gwneud gwahaniaeth, yn unol â **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** – h.y. i ba raddau mae'n trefniadau diogelu yn darparu beth sy'n bwysig i oedolion dan fygythiad a'r canlyniadau maent am eu cyflawni.

- **Triongli:**

Mae angen cymharu'r ffynonellau gwybodaeth meintiol ac ansoddol a chroes wirio'r data a dilysu unrhyw gasgliadau sy'n cael eu gwneud. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i ddeall yn fwy hyderus a yw trefniadau yn effeithiol ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

- **Cefnogi dysgu a Gwelliant:**

Mae beth fyddwn yn ei wneud gyda'r wybodaeth a gesglir yr un mor bwysig ag ansawdd y wybodaeth honno. Felly, bydd y gwersi a ddysgir o sicrhau ansawdd yn cael eu rhannu gyda phartneriaid a'u defnyddio'n ystyrlon i newid arferion a gwella canlyniadau ar gyfer cleientiaid a gofalwyr.

4.6. **Ffynonellau Gwybodaeth**

Bydd gwybodaeth yn dod o'r ffynonellau canlynol:

- Data Perfformiad / gweithgarwch sefydliadol
- Cofnodion Achosion
- Profiadau Staff a Rheolwyr rheng flaen
- Profiad cleientiaid/ gofalwyr

4.7. Yn gyffredinol, data perfformiad / gweithgarwch sefydliadol a chofnodion achosion yw'r ddwy brif ffynhonnell o wybodaeth sydd wedi eu defnyddio wrth sicrhau ansawdd diogelu. Er y cydnabyddir fod y rhain yn ffynonellau pwysig a gwerthfawr, er mwyn cael darlun cyflawn o beth sy'n digwydd mewn gwirionedd, mae'n bwysig dal profiadau cleientiaid / gofalwyr, a phrofiad staff a rheolwyr rheng flaen.

4.8. Bydd angen i'r holl sefydliadau partner ystyried sut y gallant goladu gwybodaeth feintiol, ansoddol, a gwybodaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau o'r pedair ffynhonnell er mwyn hysbysu gweithgarwch gwella o safbwynt eu harferion diogelu.

4.9 **Data Perfformiad / gweithgarwch sefydliadol**


Mae amrywiaeth glir, gynhwysol o wybodaeth perfformiad yn cefnogi dealltwriaeth o arferion diogelu effeithiol. Mae'n hanfodol i'r awydd i sicrhau gwelliant parhaus a darparu gwasanaethau safonol.

4.10. **Cofnodion Achosion Plant / Oedolion**

4.1. Bydd cofnodion achosion sydd gan sefydliad, ym mha bynnag fformat, yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth.

4.12. Mae 'archwilio' cofnodion achos yn golygu dadansoddi cofnodion yn systematig gan staff sydd ag arbenigedd proffesiynol perthnasol, er mwyn cael y wybodaeth angenrheidiol o sampl digonol o achosion er mwyn darparu darlun o beth sy'n mynd ymlaen drwy gydgasglu canfyddiadau'r achosion.

Profiad cleientiaid/ gofalwyr



- 4.13. Nid yw casglu barn cleientiaid/ gofalwyr mewn gwaith diogelu wedi ei ddatblygu yn ddigonol gan ei fod yn beth anodd ei wneud, yn arbennig o ystyried natur ofidus gwaith diogelu. Er hynny mae'n amlwg yn ffynhonnell werthfawr, nid yn unig o safbwynt deall ansawdd ac effaith gwasanaethau ar hyn o bryd, ond fel ffynhonnell dysgu a datblygu sefydliadol.
- 4.14. Mae'n bwysig gwybod beth yw barn cleientiaid a gofalwyr am sut maent yn cael eu trin gan y gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau maent yn rhyngweithio â nhw. Os yw eu profiad o rhyngweithio o'r fath yn negyddol, mae hyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar ganlyniadau. Dim ond gofalwyr a chleientiaid yn unig all ddweud wrthym beth sy'n bwysig o safbwynt ymgysylltu a rhyngweithio, ac a yw hyn yn rhywbeth maent yn ei brofi mewn gwirionedd (sydd felly yn nodi beth mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau ei gael yn gywir).
- 4.15. Bydd profiad staff a rheolwyr rheng flaen yn gwybod yn aml am ansawdd ac effaith eu gwasanaethau eu hunain, a gwasanaethau'r asiantaethau partner y maent yn cydweithio â nhw. Mae Adolygiadau Diogelu Oedolion wedi amlinellu'r sicrwydd ffug rhwng beth sydd i fod i ddigwydd o ran polisi a gweithdrefnau, a beth sy'n digwydd mewn gwirionedd. Mae'n bwysig cael cylch adborth cyson o'r rheng flaen er mwyn cadw uwch reolwyr.

5.0. **Y Fframwaith Sicrhau ansawdd**

5.1. **Elfennau o'r Fframwaith**

- 1. Adroddiad Blynyddol Asiantaethau Partner** o drefniadau strategol a sefydliadol i ddiogelu a hyrwyddo lles Plant ac Oedolion dan Fygythiad. Mae'r offeryn hwn wedi ei ddatblygu i ddarparu fframwaith cyson i'r holl asiantaethau partner yn y Rhanbarth er mwyn asesu, monitro a gwella eu trefniadau Diogelu Plant / Oedolion a gall amrywiaeth eang o sefydliadau ei ddefnyddio.

- 2. Data / Perfformiad** – bydd angen amrywiaeth o ddata gan asiantaethau / sefydliadau partner i hysbysu Dangosyddion Ansawdd Bwrdd / Adroddiad Data / Perfformiad Y bwriad yw defnyddio'r wybodaeth hon i alluogi'r Bwrdd Plant / Oedolion perthnasol i ddeall nifer yr achosion o gam-drin / esgeulustod, amlygu themâu a phatrymau mewn gweithgarwch diogelu, ac adnabod materion sydd angen mynd i'r afael â nhw o fewn trefniadau diogelu. Dylai'r wybodaeth gynnwys patrymau o safbwynt camdriniaeth, gweithio mewn partneriaeth er mwyn ymateb i bryderon diogelu, a chanlyniadau (a yw cleientiaid yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad). Cyn belled ag y bo'n bosib bydd data o'r bartneriaeth ddiogelu gyfan sydd eisoes wedi ei gasglu a'i ddefnyddio gan dimau rheoli asiantaethau unigol i fonitro effeithiolrwydd eu trefniadau diogelu unigol yn cael ei ddefnyddio.
- 3. Memorandwm o Ddealltwriaeth / Dyletswydd Gonestrwydd** – mae Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Bwrdd yn rhoi dyletswydd gonestrwydd ar bob sefydliad / asiantaeth bartner - yn ymarferol bydd hyn yn golygu bod disgwyliad ar holl asiantaethau a sefydliadau'r bartneriaeth i hysbysu'r Bwrdd am unrhyw faterion o bryder – fel canlyniad archwiliad rheoleiddio gwael, digwyddiadau difrifol, materion a allai dynnu sylw'r wasg, risgiau coch diogelu ar gofrestr risg eu sefydliadau ayb.
- 4. Profiad defnyddiwr** – deall eu siwrne. Dylai pob asiantaeth bartner fod â phrosesau yn eu lle er mwyn deall profiad defnyddiwr gwasanaeth o'u gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Diogelu â diddordeb arbennig ym mhrofiadau plant / oedolion o'r broses ddiogelu - felly mae'r fframwaith hwn yn rhoi dyletswydd ar asiantaethau / sefydliadau i ganfod profiad diogelu pobl ac adrodd amdanynt i'r Bwrdd, fel y gall eu profiadau hysbysu gwaith y Bwrdd.
- 5. Hyfforddiant / Cymhwysedd** – sicrhau fod hyfforddiant yn ddigonol, yn effeithio yn gadarnhaol ar arferion ac yn ei dro yn gwella canlyniadau ar gyfer plant / oedolion gydag anghenion gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru, a sicrhau bod staff sy'n gweithio gyda phlant / oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth yn grefftus ac yn gymwys ar draws yr holl sectorau. Bydd yr Is-Grŵp Gweithlu a Hyfforddiant yn arwain yn y maes hwn.
- 6. Archwiliadau Asiantaethau Unigol** – Rhaid i bob asiantaeth bartner fod â threfniadau archwilio yn eu lle er mwyn asesu ansawdd eu gwaith diogelu oedolion o ddydd i ddydd. Bydd y Grŵp Darparu Arfer Lleol yn gofyn i bartneriaid rannu canfyddiadau.
- 7. Archwiliadau Aml Asiantaeth** - Bob blwyddyn bydd y Bwrdd yn adolygu ac yn diweddarau Rhaglen Sicrhau Ansawdd. Ddwywaith y flwyddyn bydd y Grwpiau Darparu Arfer Lleol yn cynnal archwiliadau â thema, fel y cynigir yn y Rhaglen. Lle bo'n bosib bydd profiadau plant / oedolion dan fygythiad yn ffactor allweddol y gellir ei gael drwy ddilyn achosion neu adborth uniongyrchol.
- 8. Cwynion** – Rhaid i bob asiantaeth bartner fod â threfniadau yn eu lle ar gyfer monitro cwynion i sicrhau fod materion diogelu yn cael eu nodi a'u bod yn ymateb iddynt yn gynnar ac yn gyflym. Mae'r Bwrdd yn cadw'r hawl i ofyn i bartneriaid rannu data cwynion.

9. Adolygiadau Arfer Oedolion / Plant - (er mwyn sefydlu os oes gwersi i'w dysgu o'r achos lle mae gweithwyr proffesiynol lleol ac asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant / oedolion mewn peryg). Bydd Adolygiadau Arfer hefyd yn adolygu effeithiolrwydd gweithdrefnau ac yn clustnodi gwersi ar gyfer gwella. Bydd yr Is Grŵp Adolygu Arfer Oedolion / Plant yn monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu.

10. Adroddiad Blynyddol – bydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol bob blwyddyn i amlygu,

- (a) (a) beth mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn honno i gyflawni ei amcanion,
- (b) (b) beth mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn honno i weithredu ei strategaeth.
- (c) (c) beth mae pob aelod wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn honno i weithredu'r strategaeth,
- (d) (d) canfyddiadau unrhyw Adolygiadau Arfer Oedolion / Plant a gwblhawyd y flwyddyn honno,

a
- (e) (e) yr adolygiadau a drefnwyd o dan yr adran honno sydd yn mynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn honno.